

Adar o'r Unlliw

gan J. O. Francis

ADAR O'R UNLLIW



Comedi Ochr Ffordd
Mewn Un Act

— GAN —

JOHN OSWALD FRANCIS.

Cyf : gan
MAGDALEN MORGAN.

PRIS : CHWE' CHEINIOG.

DREFNEWYDD :
THE "WELSH OUTLOOK" PRESS.

5/10/10

ADAR O'R UNLLIW



COMEDI
Mewn Un Act


— GAN —

JOHN OSWALD FRANCIS.

PRIS : CHWE' CHEINIÖG.

DREFNEWYDD :
THE "WELSH OUTLOOK" PRESS.

CYMERIADAU.




TWM TINCER

DICI BACH DWL

JENKINS Y CIPAR

ESGOB CANOLBARTH CYMRU



Golygfa: Min y ffordd yn un o froydd gwledig
Cymru.

Amser: Tua deg o'r gloch y nos.

ADAR

O'R

UNLLIW.

O safle'r gynulleidfa y rhoddir holl gyfarwyddiadau'r llwyfan.

Ar hyd ffrynt y llwyfan rhed ffordd wledig. Yn y cefndir y mae allt o goed wedi ymwisgo ag irddail haf. Rhwng yr allt a'r ffordd mae clawdd glas isel ac ynddo, oddeutu canol y llwyfan, adwy a llwybr yn arwain ohoni drwy'r allt i'r afon gerllaw. Gwelir goleu'r lleuad yn y coed ac ym mharthau pellaf y llwyfan.

Gerllaw'r adwy, ar fin y ffordd, y mae tân coed yn cynneu. O bobtu'r tân y mae boc cyfleus i eistedd arno. O'r neilltu, mae boc arall a ddefnyddir fel ystorfwrdd. Arno gorwedd tryblith o blatiau, cyllyll, ffyr, dau gwpan tin, sypynnau o ddefnyddiau'r arlwy a llusern. Ar y llawr yn agos i'r tân mae llusern arall a phadell ffrio yn cynnwys stêc a winwyn. Teifl y tân a'r ddau lusern, ffwrdd o oleuni ar y rhan hon o'r llwyfan.

Pan gwyd y llen, gwelir TWM TINCER yn eistedd ar y boc ar y dde, yn bwyta ei swper o'r plat sydd ar ei lin. Dyn canol oed ydyw TWM, garw'r olwg arno a diraen ei wisg. Wrth ei weld yn syllu'n drist ar ei gwpan gwag, sylweddolir ar unwaith ei fod heb ddim i'w yfed. Sych ei blat a thusw o laswellt o'r clawdd a gloewa ef a darn o bapur. Yna tania ei bibell ac ymollwng i'w mwynhau.

Clywir DICI BACH DWL yn canu ar yr aswy.

TWM : Hylo, Dici !

DICI (o'r tuallan) : Hylo, Twm !

TWM : Ydi'r cwrw gen ti?

DICI : Ydi, siwr.

TWM : Wel, brysia 'ta, machgen i, brysia !

Daw DICI BACH DWL i mewn o'r aswy yn cario torth o fara a jar galwyn. Llanc ifanc ydyw, ei wisg yn wladaidd a charpiog a chanddo hen het feddal am ben toreth o wallt anghryno. Dengys ei wyneb syn fod ei feddwl hytrach yn bwl. Er hynny nid oes ynddo ddim i beri atgasedd; i'r gwrthwyneb mae'n ennyn tosturi a thynerwch.

DICI (yn ffroeni) : Diawch, Twm, mae oglau hyfryd ar y stêc a'r winwns 'na.

TWM : Mae dy "shar" di yn y badell ffrio. Estyn y cwrw 'na i mi, Dici.

Gesyd DICI 'r dorth gyda'r pethau eraill ar y bocs ac estyn y jar i Twm. Mae yntau'n arllwys llond cwpan o'r cwrw ac yn ei yfed yn awchus. Mae DICI yn dal y badell ffrio wrth ben y tân gan fwynhau'r arogl.

DICI : A—! Hym! Hyfryd! Ych chi wedi gosod y "lines" nos, Twm?

TWM : Ydw. (Yn cyfeirio at gefn y llwyfan). Mae' nhw wedi 'u clymu wrth fôn y pren helyg ymhen isa'r pwlllyn.

Clywir ci yn cwyno'n isel ar y dde.

DICI (yn bryderus) : Mae'r ast fach yn anesmwyth iawn.

TWM : Ydi. Dodais hi yn y cart o'r golwg rhag ofn i Jenkins y Cipar neu Powel y Polis ddod heibio.

DICI (yn ei chysuro megis creadur rhesymol) : Gorwedd di yn dawel, Ffios fach. Bydd yn saffach i ni. (*Dechreuau'r ast gyfarth yn llon wrth glywed ei lais*). Taw dy swm! (*Distawau'r ast ar unwaith*). Ble mae'r asyn?

TWM : Mae e' wedi 'i rwymo lawr yna wrth y bont. Galw arno i gael gweld os yw e' yno.

DICI (yn galw) : Nedi !

Mae'r asyn yn nadu o'r dde.

TWM : Gwranddo arno—ar 'ngair i—yn dy ateb di 'nol cystal ag unrhyw Gristion mewn trowsus. Y ffordd wyt ti'n gallu trafod creaduriaid—wel—mae tu hwnt i mi.

DICI (yn llwytho ei blat o'r badell ffrio) : Ia—a mae gen i eitha ffordd o drafod stêc a winwns hefyd.

TWM : "Hold on," Dici bach, cymer bwyll, 'machgen i. Gad dipyn ar ol yn y badell ffrio, da ti !

DICI (yn anfodlon) : Gadael peth?

TWM : Ia—rhag ofn. Ti wyddost yr enw sydd i ni fel potsiars. Wel, os digwydd i rywun busnesllyd ddod y ffordd hyn, yna fe fydd y badell ffrio ar y tân mewn wincad, (*yn dynwared y weithred*) a dyma ni, Twm Tincer a Dici Bach Dwl, yn batrwm o ddau dincer teidi yn cael tamad gonest o swper ar fin y ffordd.

DICI (yn amheus) : Wel—falle y byddai pobl yn barod i gredu hynny, falle—

Clywir swm rhegen yr yd o'r pellter ar yr aswy.

TWM : 'D yw 'r hen regen yr yd 'na ddim yn gweld rhyw lawer yn y syniad chwaith, feddyliwn i. Welaist ti Price pan o't ti 'nol y cwrw?

DICI : Do. (Yn estyn nodyn iddo). Gofynnodd i mi roi hwn i chi.

TWM : Ynghylch y samwn, debig. (*Yn darllen wrth oleu un o'r llusernau*). "Castle Hotel, Pontewyn. Cyfrinachol. Annwyl Twm Tincer, Gair bach i ddweyd bod popeth wedi ei drefnu ar gyfer y luncheon mae Mr. Venerbey-Jones yn ei roi i'r offeiriadon sy'n dod yma yfory i agor ysgoldy newydd Eglwys Dewi Sant." (*Yn ffyrnig*). Venerbey-Jones! Fe garwn i pe bai'r 'ffeiradon 'na'n rhoi luncheon iddo fe ac yn dechreu drwy arllwys dos dda o wenwyn llygod i lawr corn gwddw'r hen gythraul!

DICI : Clywch, clywch, Twm! 'Does gen i ddim ond ceiniog a dimai yn y byd—ond fe rown nhw'n galonnog am gael dal y botel wrth 'i ben e'.

TWM (*yn parhau i ddarllen*): "Yma yn y Castle y bydd y wledd a chofia fy mod yn dibynnu arnat ti am y samwn ac y talaf ddeg ceiniog y pound am dano. Yn gywir, Robert Price."

DICI : Deg ceiniog y pound? Diawch Twm, dyna arian da!

TWM (*yn doddi y llythyr yn ei boced*): Fe gadwa' i hwn rhag ofn iddo geisio gwadu'r pris. 'Rym ni wedi addo dal samwn iddo fe, Dici, ac fe gaiff un hefyd. Lawr 'na ym mhwllyn Venerbey-Jones (*yn cyfeirio i'r cefn*) mae samwns gora'r afon. Weli di, Dici, mae'r cymylau'n crynhoi. Ardderchog! Bydd yn ddigon tywyll i ni gyda hyn. Mae'r gwynt wedi troi i'r gorllewin.

Clywir si'r gwynt yn y coed.

DICI : Ydi wir. Glywch chi e'? Gwynt y gorllewin—hen wynt iawn am gario cymylau. Dere di â digon o gymylau gen ti, 'rhen wynt. Dyna dyna, gyrr nhw i fyny i gau llygaid yr hen leuad. Dere lawr at yr afon, Twm; alla' i ddim dal yn hwy.

TWM : Ia. Gwell i ni baratoi. Cladda dy swper, Dici.

DICI (*yn gorffen ei swper*): 'Rwy'n 'i gladdu e', Twm. 'Rwy' i wedi 'i gladdu e'. Oes gennych chi ddefnydd ffagal?

TWM : Oes, fe guddiais i bopeth sydd eisieu tu cefn i'r clawdd 'ma. (*Yn eu hestyn*). Pren, clwtyn a pharaffin. (*Yn codi tryfer*). A dyma'r dryfer.

DICI (*yn clustfeinio*): Hist! (*Mae'n gogwyddo ei ben i wrando*).

TWM : Beth glywi di?

DICI : Swm traed.

TWM : Ble?

DICI (*yn cyfeirio i'r aswy*): Yn y coed. Jenkins y Cipar sy 'na, Twm.

TWM : Fe? Y mawredd annwyl! Gad i ni guddio rhain. (*Cuddia'r taclau potsio*). Dwed wrth yr ast fach am fod yn dawel.

DICI : Reit. (*Chwibana'n isel a rhybuddiol*).

TWM : Dici bach, 'r wyt ti'n gallu spotio cipar neu blisman filltir o ffordd. Ble felldith mae'r badell ffrio 'na? A! (*Cwyd y badell ffrio ac eistedd i lawr gan ei dal wrth ben y tân*). Eistedd lawr, Dici, da ti, ac edrych mor ddiniwed ag y galli di.

Maent yn eistedd yn dawel o bob tu'r tân gan ymddangos yn batrwm o ddiniweidrwydd.

DICI (*yn sibwrdd*): Dyma fe.

TWM (*yn hyglyw*): Wyt, Dici, 'rwy'ti yn llygad dy le. Fe ddylsa Dafis Ty Isha fod wedi cynnig mwy na chwe cheiniog am gyweirio'r hen fwcad 'na.

Daw JENKINS Y CIPAR i mewn o'r aswy—gwr talgryf, canol oed, wedi ymwisgo yn ol dull cyffredin dynion o'r alwedigaeth honno.

TWM (*yn ffugio syndod*): O, Jenkins y Cipar! Noswaith dda, Jenkins.

DICI : Noswaith dda, *Mistar Jenkins*.

TWM (*yn serchog*) : Cymryd tro bach ar ol swper?

JENKINS : 'Dwy' i am ddim o'ch sebon chi 'ch dau. Beth wyt ti'n wneud yma, Twm Tincer?

TWM : Ffrio stêc a winwns.

JENKINS : Winwns pwy, 'sgwn i?

TWM (*yn ffyrnig*) : Winwns pwy? Fy winwns i. Winwns Dici. Ein winwns ni!

JENKINS : Yn wir?

TWM : Beth ych chi'n feddwl, Jenkins? Beth ych chi'n awgrymu?

JENKINS : 'Dwy' i'n awgrymu dim. 'Rwy' i am ddweud beth sy gen i'n eitha' plaen. 'Rwy' i am dy weld di, a'r Dici Bach Dwl 'ma yn 'i chychwyn hi oddiar dir Mr. Venerbey-Jones.

TWM : Pwy sy ar 'i hen dir e'?

DICI : Ia—pwy sy arno?

TWM : Y ffordd fawr yw hon, ontefe?

JENKINS : Falle hynny. Ond mae'r tir o bobtu yn perthyn i Mr. Venerbey-Jones. A mae'r gêm sy arno yn perthyn i Mr. Venerbey-Jones.

TWM : Gall hynny fod.

JENKINS : Pob pysgodyn yn yr afon yma am filltir a hanner—Mr. Venerbey-Jones pia hwnnw.

TWM : Chi sy'n dweud hynny.

JENKINS : Ia; ac ar y stad yma, perthyn i Mr. Venerbey-Jones mae pob creadur asgellog, pluog a blewog. Paid ti anghofio hynny.

TWM : Fe wn i beth sy'n bod, Jenkins. Mae'ch meistr wedi bod yn achwyn nad oes gennyh ddigon o blwc i wneud cipar da.

JENKINS : Beth?

TWM : O!—'rwy' i wedi clywed! A dyma chi'n awr yn dechre dihuno ac yn dod i boeni dau dincer diwyd a gonest.

JENKINS : O, ia, par pert ych chi. 'Does gan y polis mo'r syniad lleia' am yr holl felldith ych chi'n gyflawni—yn cysgu yn y cart yna fel pac o sipsiwns.

TWM (*wedi ei dramgwyddo*) : Sipsiwns? Sipsiwns ddwedsoch chi?

DICI : Cwilydd iddo, Twm—a chitha'n Fethodist hefyd.

JENKINS : Yn y wyrwys y dylet ti fod, y llechgi bach.

DICI : Nage. Yfi y tu fewn i hen wal fawr—dim byth.

JENKINS : Ac am danat ti, Twm Tincer, dy le di yw'r 'jail'—a bydd yn bleser mawr gen i dy gael di yno.

TWM : Wnewch chi byth mo hynny, Jenkins; 'rych chi wedi treio'n galed am ugain mlynedd.

JENKINS : 'Rwy'n sicr o'ch cael chi un o'r dyddiau nesa' yma—y ddau o honoch chi. A nawr, cyn i mi fynd adre', 'rwy' i am eich cael chi oddiar y stad yma.

TWM : 'Rym ninnau'n bwriadu symud odidiyma pryd y mynnwn ni, Jenkins, a dim eiliad cyn hynny.

DICI : Na, dim eiliad cyn hynny, Twm.

TWM : 'Rwy' i bron â chredu mai chi ddylai 'i chychwyn hi, Jenkins, rhag ofn i mi golli gafael ar y badell ffrio 'ma.

JENKINS : Wel, cofiwch 'rwy' i wedi rhoi rhybudd teg i chi.

TWM : Diolch i chi am ddim, Jenkins. Noswaith dda, a melys bo'ch hun.

JENKINS : Yr hen dacle isel—rodneys—Yh!

A ymaith ar yr aswy.

DICI (yn gwyllo Jenkins yn mynd): Ach yfi! Os oes na greadur mwy ffaidd ar y ddaear 'ma na wenci, cipar yw hwnnw.

TWM: 'Rym ni wedi addo samwn i Price—Jenkins neu beidio.

DICI: 'Roedd e'n dweyd 'i fod e'n mynd tua thre. Sh! Ydi mae e'n mynd 'nol drwy'r allt. Dewch mlaen, Twm. Nawr am dani. Alla' i ddim aros rhagor. Ych chi ddim yn teimlo'r afon yn eich tynnu chi, ia'n tynnu a thynnu? Mae'r lleuad yn mynd, Twm.

TWM: O'r gora, fe'i mentrwn hi. Fe ddo' i â'r taclau mas eto. (*Daw a'r taclau potsio allan. Mae'r lleuad yn araf ddisflannu tu cefn i'r cymylau.*)

DICI (yn symud ol a blaen yn gynhyrfus ac yn chwerthin yn llon): Ha, ha, ha! Noswaith dda i ti'r hen ddyn yn y lleuad. Ffarwel, chi'r ser bach gwynion! Ac os digwydd i chi bipo mas, 'rwy'n gobeithio na welwch chi ddim llai na samwn un pound ar bymtheg—Ha, ha! Ho, ho!

TWM (yn estyn y taclau i Dici): Dyma'r clwtyn, dyma'r pren a'r paraffin; gwna ffagal.

Mae TWM yn trin y dryfer, tra mae DICI yn rhwymo'r clwtyn am y pren.

DICI (yn arllwys paraffin ar y clwtyn): Nawr am y paraffin.

TWM: Oes matches gen ti?

DICI (yn dangos blwch): Oes, digon.

TWM: O'r gora 'ta.

DICI: Ha, ha, ha! Tryfer a ffagal unwaith eto—O, dyna'r pryd 'rwy' i wrth 'modd. O darro, alla' i ddim dweyd wrthoch chi, Twm, ond mae fel pe bai llond 'nghalon i o adar bach yn canu. (*Yn*

dawnsio ychydig.) Alla' i ddim bod yn llonydd—na alla' wir. (*Yn ddisymwth yn tristhau.*) Ond, Twm, mae'r son 'ma am fy nodi i yn y wyrwys yn fy nychryn i'n ofnadw. Tasa' nhw'n 'nodi i yn y wyrwys, Twm, a tasa rhywun yn dod ata' i ar noson fel hon a dweyd y gair "Samwns"—dim ond yn dawel fach—O'r mawredd, Twm, baswn i'n siwr o dorri 'nghalon a marw.

TWM: Wel, machgen i, gobeithio 'rwy' i na fydd yr un o honom ni yn y jail cyn brecwast bore fory. (*Yn symud tuag at gefn y llwyfan.*) Dere mlaen.

DICI (yn troi'n chwim i'r dde): 'Rhoswch. Mae rhywun arall yn dod nawr.

TWM: Darro'r bobol 'ma! Chaiff dyn ddim llonydd i fynd ymlaen a'i waith. (*Mae'n cuddio y taclau potsio unwaith eto.*) Ble mae'r badell ffrio 'na? (*Eistedd fel o'r blaen wrth y tân.*) Pwy sy 'na nawr, Dici?

DICI (yn gwranddo): 'Dwy' i ddim yn nabod sw'n 'i droed e'. Dyn diarth yw e'. (*Syll i'r tywyllwch.*) Dyma fe. Diawch, Twm, ciwrat yw e'.

TWM: Ciwrat?

DICI: Ie, a het silk ar 'i ben e' a legins am 'i goese'.

TWM: Ciwrat? Yr amser hyn o'r nos? Oes 'na ryw berigl tybed? Eistedd lawr, Dici bach, a threia edrych fel petae'n ddydd Sul.

Maent eto yn ymddangos fel dau dincer diniwed yn paratoi swper ar fin y ffordd. Fel peth priodol i'r amgylchiad, mae TWM yn dechreu mwmmian emyn Cymreig heb fod yn rhyw sicr iawn o'r nodau. Mae DICI yn ymuno ag ef.

Daw ESGOB CANOLBARTH CYMRU i mewn ar y dde, yn cerdded yn lluddedig ac yn cario bag. Mae llwch y ffordd ar ei wisg esgobyddol. Hen foneddwr hynaws ydyw'r ESGOB a chanddo wyneb serchog iawn. Saif am ennyd gan syllu drwy a thros ei spectol fel un byr iawn ei olwg.

YR ESGOB : Beth sydd yma? A, diolch byth, dynion byw o'r diwedd! Noswaith dda i chwi, gyfeillion.

TWM (*yn ddidaro*) : Noswaith dda.

DICI (*yn codi ei law at ei dalcen*) : Noswaith dda, syr.

YR ESGOB : A fyddwch chwi cystal â dywedyd wrthyf os ydwyf rywle'n agos i'r Ficerdy?

TWM : Tŷ Mr. Owen Matthews ych chi'n feddwl?

YR ESGOB : Nage. Mr. Lewis Pugh.

TWM : Pugh? Ond mae fe'n byw yn y cwm arall.

YR ESGOB (*wedi arswydo*) : Beth?

DICI : Ydi, syr—bedair milltir oddiyma.

YR ESGOB : Pedair milltir? O diar, diar diar! Alla' i byth mo'u cerdded nhw.

DICI : Colli'ch ffordd ddaru chi, syr?

YR ESGOB : Ie siwr. Cyrhaeddais Bontewyn gyda'r tren olaf, ac yr wyf wedi bod yn crwydro am dros ddwy awr. (*Yn sychu ei dalcen*). 'Rwyf wedi diffygio'n llwyr.

TWM (*yn gosod y badell ffrio i lawr wrth weld bod yr Esgob yn hollol ddidwyll*) : Ond oedd 'na neb yn cwrdd â chi, syr?

YR ESGOB : Nac oedd. Y gwir yw, ysgrifennais at fy nghyfaill Pugh. (*Gan dynnu llythyr o'i boced*). Ond 'rwyf newydd ddod o hyd i'r llythyr yn fy llogell.

Mae cyfwr YR ESGOB a'i diriondeb yn dechreu ennill serch TWM a DICI.

DICI : Twm, falle y leiciai'r gwr bonheddig eiste' lawr?

TWM : Eisteddwch chi, syr, a chroeso.

YR ESGOB : Diolch yn fawr iawn. 'Rydwyf yn teimlo braidd yn lluddedig.

DICI (*yn cynnig ei focs ei hun*) : Dyma chi, syr. Cymrwch spel. Mae'ch traed chi'n siwr o fod wedi blino.

Eistedda'r ESGOB gydag ochenaid o ollyngdod.

YR ESGOB (*yn ffroeni*) : Wel yn wir, mae yma,—oes yn siwr—arogl hyfryd.

DICI : Y badell ffrio, syr—stêc a winwns.

YR ESGOB (*yn awchus*) : Stêc a—ddywedsoch chi stêc a winwyn? (*Yn ochneidio'n hiraethus*). O diar!

TWM : Wedi cerdded am ddwy awr a'r bag mawr trwm 'na? (*Yn fawrfrydig ar unwaith*). Dici, rhaid iddo gael beth sy' ar ol o'r stêc a'r winwns 'na.

DICI (*yn galonnog*) : Rhaid, siwr iawn, Twm.

YR ESGOB (*yn protestio'n ffurfiol ond yn wanaidd*) : Na'n wir, 'charwn i ddim eich amddifadu chwi—

TWM : Peidiwch a son, syr. 'Rym ni wedi cymryd ein swper ni. Estyn y plat 'na, Dici.

Mae DICI 'n dal plat a TWM yn arllwys arno gynnwys y badell ffrio.

DICI : Dyna fe, Twm, y grafi a chwbl. (*Yn rhoi'r plat i'r Esgob*). Dyna chi, syr. Nawr, tafellan o fara.

YR ESGOB : Diolch i chwi, diolch yn fawr i chwi. Yr ydych yn garedig dros ben. Y gwir yw 'rydwyf bron newynu. (*Dechreua fwyta'n awchus*).

DICI : Leiciech chi ddiferyn o gwrw, syr?

YR ESGOB (*yn gwenu o foddhad*) : Cwrw?

TWM (*o'r neilltu, heb fod yn sicr o ddaliadau'r Esgob ar gwestiwn dirwest*) : Yh—Dici—

DICI : Mae'n olreit, Twm. Perthyn i'r Eglwys nid i'r capel mae'r gwr bonheddig. (*Yn arllwys llond cwpan o gwrw*).

YR ESGOB : Bid siwr ! Y Fam Eglwys, syniadau eangach ac ysbryd mwy goddefgar. (*Yn cymryd y cwpan gan Dici*). Diolch, fy machgen i. Wel, iechyd da i chwi !

TWM a DICI : Iechyd da, syr.

YR ESGOB (*yn llonni*) : A ! Hym—rhagorol ! 'Rwyf yn ddyd newydd. Ac yn awr, a gaf fi ofyn eich henwau chwi, fy nghymwynaswyr?

TWM : Wel, Twm Tincer mae' nhw 'ngalw i.

DICI : Dici Bach Dwl yw'r enw sy gennyn' nhw arno' i, syr.

YR ESGOB : Dici Bach D—? (*Yn deall amnaid Twm at ei ben*). Yh, ie—felly ! Wel, allaf i byth anghofio'r cwmni diddan yma ar fin y ffordd.

TWM : Fyswn i ddim yn dweyd wrth bawb, tawn i'n eich lle chi, syr.

DICI : Na. Chi'n gweld, syr, mae enw drwg i ni—rywsut.

YR ESGOB : Enw drwg?

DICI : Ia, am botsio, syr.

TWM (*yn ceisio ei rybuddio*) : Yh—hym—

DICI : Peidiwch bod ag ofn, Twm. Ond gallwch chi weld wrth wyneb y gwr bonheddig fod 'i galon e' yn 'i lle.

TWM : I fod yn onest â chi, falle dylswn i ddweyd un peth wrthoch chi, syr. Wnaiff hi ddim lles ichi, a chitha'n, ffeirad, i neb eich gweld chi'n eistedd yma fel hyn gyda fi a Dici.

YR ESGOB : Ond 'rwy'n mwynhau fy hun yma fel hyn gyda chwi a Dici.

DICI (*yn synedig*) : Yn mwynhau, syr?

YR ESGOB : Ydwyf. Rhaid i mi egluro i mi ddod ar fy union o Gynhadledd yn Llandrindod.

DICI : Beth mae' nhw'n wneud mewn c'nadledd, syr?

YR ESGOB (*gydag atgofion diflas*) : Beth mae' nhw'n wneud 'machgen i? Gwneud areithiau, a rheiny'n faith iawn gan mwyaf. Dynion rhagorol, wrth gwrs, cwbl ddiargyhoedd, dynion ag y mae genyf y parch dyfnaf iddynt. Ond yn awr, ar ol treulio pedwar diwrnod yn ddifwlch gyda'r saint, mae'n amheuthyn i gael eistedd fel hyn yn ymgomio â chwpl o bechaduriaid. (*Yn edrych oddiamgylch*). Wedi holl ffwdan y Gynhadledd, mae'n brofiad hyfryd i mi i fod yma, a dim ond tri ohonom wrth ein hunain.

DICI : Wrth ein hunain, syr? O, na, 'dym ni ddim wrth ein hunain.

YR ESGOB (*yn craffu yma ac aew*) : Dim wrthym ein hunain? Ond—

DICI : Mae' nhw o'n cwmpas ni ym mhobman, syr, yn ein gwyllo.

YR ESGOB : Yn ein gwyllo?

DICI : Ia, mae'r twllwch yn llawn o lygaid bach disglair.

YR ESGOB : Llygaid yn y tywyllwch? Diar mi !

DICI : Mae 'na wningod wrth yr ugeiniau.

YR ESGOB (*yn dechreu teimlo diddordeb*) : Ie, wrth gwrs,—y cwingod.

DICI (*yn gwaeddi*) : Hip. B-r-r-r! Ffwrdd a chi, 'r cwingod bach! (*Yn chwerthin yn isel*). Ffwrdd a nhw, syr, bob un a'i gwt bach i fyny, yn rhedeg fel tae'n ddiwedd y byd arnyn' nhw.

Clywir llwynog yn cyfarth yn y pellter ar yr aswy.

YR ESGOB : Dyna gi.

DICI : Ci? Nage, cadno yw hwnna.

YR ESGOB : Yn wir? Cadno?

DICI : Ia, yn snecio fel cysgod ar hyd godre'r allt, yn 'i gwneud hi am ffowls rhywun, siwr gen i.

YR ESGOB : Llygaid yn y tywyllwch—ni feddyliais erioed o'r blaen am danynt. (*Yn frwdfrydig*). Nid yn unig mae'n ddymunol yma ond mae—mae yma ryw beth cyfareddol hefyd.

Clywir rhegen yr yd.

DICI : Dyna'r hen regen 'r yd lawr 'na ar y gors. Dim ond iddi ddechreu arni o ddifri, dyn a wyr pryd gwnaiff hi dewi.

YR ESGOB : Mae hynny yn fy atgofio i o Landrindod.

DICI : Ar y fron 'na 'rwy'n eitha siwr fod 'na gwpwl o ddraenogod yn chwilota o gwmpas; a fan hyn, yn y cae llafur mae'r gwichwrs bach.

YR ESGOB : A phwy yw'r gwichwrs bach?

DICI : Y llygod, wrth gwrs. Dyna lle mae' nhw wrthi o hyd yn pigo 'u tamad bach. O, mae gen i olwg fawr ar y gwichwrs bach 'na. Rhyw bigo ty nhamad 'rwy' innau.

Clywir dylluan yn galw gerllaw.

YR ESGOB : Fe wn i beth yw honna; dylluan.

DICI : Ia. (*Yn gwaeddi ac yn curo ei ddwylo*). Look out, gwichwrs bach. Mae'r hen gwidihw ar eich ol chi. 'Rwy'n leicio rhoi notis iddyn' nhw, syr.

YR ESGOB : Da machgen i! (*Yn ei bryder, cura yntau ei ddwylo*). Tendiwch atoch.

DICI : Ach yfi, yr hen gwidihws 'na! 'Dyn' nhw damad gwell na Jenkins y Cipar a Powel y Polis.

YR ESGOB (*yn ymdeimlo a swyn ei amgylchoedd*) : Y llygaid bach disglair yna yn gwylio! Mae'r syniad yn gafael mewn dyn.

DICI (*yn nwyfus ac aiddgar*) : Ha, ha, ha! 'Rych chitha'n 'i deimlo fe hefyd. Dyna ysbryd y nos, syr. Mae'r gwynt a'r twllwch yn cymryd gafael ynoch chi.

YR ESGOB (*braid yn anesmwyth er ei fwynhad*) : Wel, mae rhywbeth yn cymryd gafael ynof; mae hynny'n sicr.

DICI : Ha, ha! 'Rhoswch, chi, syr 'rhoswch chi funud.

TWM : Ciwrat neu beidio, syr, wnaiff hi mo'r tro i chi wrando gormod ar Dici Bach Dwl. Ar brydiau fe allai wneud eitha gang o botsiars o'r Deuddeg Apostol 'u hunain.

DICI : Ych chi'n leicio tipyn o sport, syr?

YR ESGOB : Sport? Wel, 'r oeddwn yn dipyn o athlete pan oeddwn yn Rhydychen.

Dynesa DICI at YR ESGOB. Mae ei symudiadau didrwt a chwimwth, ynddynt eu hunain, yn llawn cyfaredd. Mae'n fyw drwyddo gan angerdd ei ddyhead hoenus a lledradaidd ac y mae ei lais yn isel a hudolus.

DICI : Falle leiciech chi dipyn o sport yn yr afon heno?

TWM (*o'r neilltu, yn bryderus*) : Dici, Dici!

DICI: Ond, Twm, 'dych chi ddim yn gweld? Mae e' bron â bod yn un o honom ni'n barod. Gwrandewch, syr. 'Rwy' i am ddweyd rhywbeth yn eich clust. (*Yn sibrawd*): Mae Twm a finna'n mynd ar ol samwn heno.

YR ESGOB: Samwn?

DICI: Ia, lawr 'na ym mhwllyn Venerbey-Jones. (*Yn dangos y dryfer a'r ffagl*). Dyma'r taclau. (*Yn cynnig y dryfer i'r Esgob*). Nawr, cymrwch chi'r dryfer.

YR ESGOB: Ond, 'machgen i—

DICI: Dim ond esgus, syr. Cymrwch hi.

YR ESGOB (*yr hen Adda'n deffro ynddo pan afaela yn y dryfer*): Beth gaf fi wneud â hi?

DICI: Bwriwch ein bod ni'n mynd i mewn i'r dwr.

YR ESGOB (*wedi anghofio ei esgobaeth*): I mewn? Diar mi!

DICI: A dim ond y ffagal yn y twllwch a'r cysgodion mawr, mawr yn chware mic o'n cwmpas ni. A chitha'n disgwyl fel hyn—sh—mor ddistaw â'r marw. Ac yna—dyna'r samwn!

YR ESGOB: Ie, dyna'r samwn.

DICI: Ciwrat neu beidio, meddyliwch am dano. Allwch chi ddim gweld 'i drwyn e'n tynnu at y gole?

YR ESGOB: Ei drwyn—ie! Ac yna?

DICI: Yna dyna chi'n codi'r dryfer—(*yn dangos sut*)—yn araf a charcus fel hyn.

YR ESGOB (*yn ei ddynwared*): Fel hyn? Ie. Wel?

DICI (*yn gostwng ei lais*): Dyna fe'n dod—yn nes ac yn nes. Welwch chi 'i gefn e'n fflachio yn y dwr? Dyna'r man—tu ol i'w ben e'. (*Yn uchel*). Nawr! (*Yn dangos*). Lawr â'r dryfer. Swish!

YR ESGOB (*yn ei ddynwared eto*): Swish!

DICI (*yn dangos eto*): Ac yna, hwb, i fyny ag e' i'r lan.

YR ESGOB (*yn ei ddynwared*): I'r lan ag e' fel hyn?

DICI: O syr, dyna sport i chi! Sport, syr? Ia'n ddigon da i frenhinoedd y ddaear. Chi ddewch gyda ni?

YR ESGOB: Myfi? Wel yn wir, efallai y—

DICI: Dewch, syr, dewch yn wir, dim ond i'n gweld ni wrthi.

YR ESGOB: Wrth gwrs, pe bai dim ond i hynny —ie. Fel hyn y mae trin y dryfer, meddwch? (*Yn ei thrafod*). Swish!

Clywir rhegen yr yd eto.

YR ESGOB (*yn tristhau'n sydyn*): A—llais cydwybod a Llandrindod!

DICI: 'Rych-chi'n dod gyda ni, syr, ond ych chi? 'R ych chi yn dod?

YR ESGOB: Nac ydwyf, Dici, ddim ar un cyfrif. (*Mae yn gollwng y dryfer o'i law*). Sut yn y byd gallwch chwi awgrymu peth o'r fath? Ac i offeiriad o bawb.

TWM (*yn ddiuedd*): Ond fe fu bron â'ch cael chi, syr.

DICI: Am fod yn garedig 'rown i. Os na ddewch chi ar ol samwn, syr, wel, falle'ch bod chi'n leicio pryd bach o frithyllod?

YR ESGOB: Brithyllod? Ie, maent yn chwaethus iawn i frecwast.

DICI: Twm, y "lines" nos 'na—wrth fon y pren helyg ddwedsoch chi ynte? 'Rhoswch funud syr, os ych chi'n leicio brithyllod.

Brysia trwy'r coed yn y cefn.

TWM : Bachgen digon teidi yw Dici, syr, ond wrth gwrs mae'n rhaid cyfaddef bod na dipyn bach o wendid yn 'i ben e'.

YR ESGOB : Gwendid? A phwy o honom a all ymfrostio ei fod yn deall holl ffyrdd Rhagluniaeth? Druan o Dici! 'Rydwyf yn ei hoffi'n fawr iawn.

TWM : Mae ofn yn 'i galon y caiff e' 'i ddal un o'r nosweithiau 'ma. Mae' nhw'n son am 'i ddodi e' yn y wyrcws. (*Yn petruso ac yn anesmwyth*). Wrth gwrs, syr, ar ol yr hyn mae fe wedi ddweyd wrthoch chi heno, 'r ych chi'n gwybod digon i'n dod ni yn llaw'r polis.

YR ESGOB : Nac ofnwch ddim, fy nghyfaill. Gwn ddiagon i wneud cymaint â hynny a phobl y buasech yn synnu clywed eu henwau.

Daw DICI yn ol yn cario nifer o frithyllod.

DICI : Dyma nhw, syr. 'Drychwch arnyn' nhw. Brithyllod bach hyfryd, syr—yn syth oddiar y bach. I chi mae' nhw, syr. Cymrwch nhw.

YR ESGOB : 'Rydwyf yn ofni mai lladrad yw hyn, Dici.

DICI : Chymrwch chi ddim o honyn' nhw, syr?

YR ESGOB : Gwell—gwell i mi beidio.

TWM : 'Dwyt ti ddim yn deall, Dici? Mae'r gwr bonheddig yn yr Eglwys. Der' a nhw i fi, Dici. Fe wna' i o'r gora â nhw. (*Cymer y pysgod a rhydd hwy yn ei boced*).

DICI : Wnewch chi fadde i fi am 'u cynnig nhw, syr? 'Rown i'n meddwl falle na fysech chi ddim mor grefyddol ar noson waith. Ciwrat ych chi, syr, ontefe?

YR ESGOB : Wel, fe fum yn giwrat unwaith.

DICI : Unwaith? (*Yn llawn cydymdeimlad*) Gesoch chi'r sac, syr?

YR ESGOB : Naddo, nid yn hollol felly.

TWM : Ficer, falle?

YR ESGOB : Bum yn ficer hefyd.

DICI : Wel, beth ych chi nawr, syr?

YR ESGOB : Ar hyn o bryd, yr wyf yn Esgob.

TWM A DICI (*mewn braw*) : Yh—Beth?

DICI : Esgob?

TWM : Wel, ar fy—

YR ESGOB (*yn frysiog*) : H'm—ie. Esgob Canolbarth Cymru.

TWM : Ond all Esgob ddim crwydro'r ffyrdd gefn nos fel dafad ar goll. Pam na ewch chi i aros gyda Mr. Venerbey-Jones, syr? Fe yw'r gwr mawr ffordd hyn.

YR ESGOB : Venerbey-Jones? Nid wyf yn ei hoffi—dyn o dymherau aflednais ydyw. Na, fe af fi ymlaen i'r Ficerdy at Mr. Lewis Pugh. Diolch yn fawr i chwi am eich holl garedigrwydd.

TWM : O, peidiwch a son. Cymrwch yr ail dro ar ol i chi groesi'r bont lawr fanna.

YR ESGOB : Diolch. Wel, fy nghyfeillion. Nos da i chwi 'ch dau.

TWM A DICI : Noswaith dda, syr.

Dechreua'r Esgob symud ymaith gan gario ei fag.

DICI : A gofalwch beidio cwmpo i'r afon, syr.

YR ESGOB : Os oes yna afon ar y ffordd y gall dyn fynd iddi, 'rwyf yn bur debig o gael fy hun yn ei chanol hi. Nos da i chwi. Nos da.

TWM A DICI : Noswaith dda, syr.

A'r ESGOB ymaith ar y dde.

DICI : Mawredd, Twm, bydd gennym ni rywbeth i'w ddweyd wrthyn' nhw yn yr efail yfory. Beth yw'r enw sy genyn' nhw ar Esgob, Twm? Eich Anrhydedd?

TWM : Nage. Mae' nhw'n dweyd hynny am faer cyffredin.

DICI : Fe wn i beth wy' i'n mynd i'w alw e'.

TWM : Beth?

DICI : Ei Fawredd Grasol.

TWM : 'Dyw hynny ddim yn ffol, wir, Dici.

DICI (yn awyddus) : A nawr, Twm, beth am y samwn 'na?

TWM (yn estyn y dryfer a'r fflag ac yn rhoi'r fflag i Dici) : Ie, dyma'r fflagal. (Yn edrych i'r dde). Beth yw'r swm 'na?

DICI : Dim ond Ei Fawredd Grasol. Mae fe wedi tarfu'r asyn.

TWM : 'Rwy'n gobeithio nad yw'r hen foi ddim wedi cwmpo i'r afon. Nawr te, Dici.

DICI (yn orfoleddus) : Ha, ha, ha! Tryfer a fflagal a'r afon unwaith eto. (Yn dechreu llamu o lawenydd). Ha, ha! O darro, Twm—fe leiciwn i ddawnsio bob cam o'r ffordd at yr afon.

TWM : Gan bwyll, boi bach, gan bwyll! Dere mlaen.

Ant ymaith rhwng y coed yn y cefn, a DICI yn chwertthin rhyngddo a'i hun. Erys y llwyfan yn wag am ychydig eiliadau. Daw JENKINS Y CIPAR i mewn o'r aswy yn llechwraidd.

JENKINS (yn sibwrdd ac yn amneidio ar rywrai tuallan) : Hsh. Sefwch fanna 'ch pedwar. Peidiwch dod i'r golwg nes i mi chwibanu.

LLAIS (o'r tuallan yn sibwrdd) : Olreit, Jenkins.

JENKINS (yn dod ymlaen ac yn sylwi ar y pethau oddeutu'r tân) : A! (Yn dychwelyd i siarad a'i gyfeillion). Mae' nhw'n bwriadu dod 'nol yma—a physgodyn neu gêm genyn' nhw, gallwch fentro.

(Yn plygu ac yn edrych i'r dde). Hsh! Pwy yw hwnna sydd ar yr heol? Mae e', ydi, mae e'n cario bag. Un o firindiau Twm Tincer—potsiar arall lled debig. 'Rwy'n mynd i drafod hwn fy hunan. Ewch yn ol o'r golwg.

Clywir murmur, yna mae distawrwydd. Mae JENKINS yn plygu'n isel ac yn symud yn y cysgod i fan cyfleus i ymosod ar y dyn sy'n agoshau.

Daw'r ESGOB i mewn o'r dde yn cario ei fag a rhai o'r dillad oedd ynddo. Mae golwg druenus arno—ei ddillad yn wlyb, ei goler yn llipa a brwnt, ei het wedi diflannu. Mae wedi tynnu ei got a charia hi ar ei fraich. Hefyd y mae wedi diosg ei "gaiters" ac ymddengys modfedd neu ddwy o'i "pants" uwchben ei socs glas hen ffasiwn.

YR ESGOB (yn murmur wrth ddod i mewn) : Diar, diar, diar! (Yn uchel). Esgusodwch fi. (Wrtho ei hun). Wedi mynd!

JENKINS (yn ymosod arno) : Dyma fi wedi dy ddal, y dyhiryn!

YR ESGOB (wedi ei synnu ac yn gollwng ei bethau) : O! (Yn ceisio ymryddhau). Gollyngwch fi! Sut y meiddiwch chwi wneud y fath beth?

JENKINS : Dy ollwng, wir? (Yn gafael yn dynnach). Ollynga' i ddim o dy sort di—y lleidr drwg!

YR ESGOB : Drwg? Lleidr? Myfi? (Yn ceisio ymysgwyd o afael Jenkins). Ni chlywais erioed y fath—

JENKINS : Bydd yn dawel. Wyt ti'n clywed?

YR ESGOB : Na fyddaf i ddim yn dawel.

JENKINS : Wel ynte, mi wna' i ti. (Yn ei daro). Nawr ynte!

YR ESGOB (*wedi colli ei dymer*): Dyrnod! Y Nefoedd fawr—fy nharo i! (*Ymysgwyd o afael Jenkins ac yna wyneba ef a'i ddyrnau i fyny yn osgo boxer*). Peidiwch meddwl nad allaf i amddiffyn fy hun. Nid oes arnaf ofn yr un lleban haerllug, nac oes.

JENKINS (*yn ceisio gafael ynddo drachefn*): Rhaid iti—

YR ESGOB (*yn ei wthio ymaith*): A! fe leiciech, leiciech chi? (*Yn ei daro ac yn ymladd ag ef gan dalu'n ol crystal ag a dderbyn*). Dyna! cymrwch hwnna, y "blackguard," a hwnna eto. Peidiwch meddwl y gallwch fy nychryn i am mai offeiriad ydwyf.

JENKINS (*yn gwaeddi mewn syndod*): Beth? (*Yn tynnu yn ol*). Offeiriad? Ddwedsoch chi offeiriad?

YR ESGOB: Ie, offeiriad. Oni welwch chwi? Na, efallai na allwch chwi ddim. Syrthiais i'r afon. Ond dewch, gwelwch fy ngholer.

JENKINS: Ia,—coler offeiriad; a'ch ffordd chi o siarad hefyd.

YR ESGOB: A phwy ydych chi sydd yn beiddio ymddwyn fel hyn? Beth yw eich enw?

JENKINS: Jenkins. Fi yw pen-cipar Mr. Venerbey-Jones.

YR ESGOB: Pw! Hwnacw?

JENKINS: Ffeirad? Wel, wel, wel! (*Heb ei lwyr argyhoeddi*). Ond beth yw'r olwg yma sydd arnoch chi?

YR ESGOB (*yn swta*): Yr olwg arnaf fi?

JENKINS: A'r amser hyn o'r nos hefyd?

YR ESGOB (*yn llwyr gashau Jenkins erbyn hyn*): Nid eich busnes chwi ydyw hynny, y dyn.

JENKINS: Falle nage. Wel, gwell i mi fynd. Mae'n ddrwg gen i, syr, i mi roi 'nwylo arnoch chi.

YR ESGOB (*dipyn yn ymfrostgar*): Cawsoch gystal ag a roddasoch, onid do?

JENKINS: Noswaith dda, syr.

YR ESGOB (*yn swta*): Nos da.

A JENKINS *ymaith ar yr aswy*. Mae'r ESGOB yn ysgwyd y dwr o'i got ac yn ei gwisgo. Gesyd ei gaiters wrth y tân i sychu. Egyr ei fag a thyn allan ei grys nos sydd yn wlyb iawn. Gwasg y dwr ohono a thaena'r dilledyn ar focs wrth y tân. Fel y mae effeithiau'r drochfa a'r sgarmes yn cilio, daw ei hynaw-sedd arferol i'r amlwg drachefn. Clywir si'r awel yn y coed ac y mae yntau yn gwrando gyda gwen foddhaus. Clywir dylluan gerllaw.

YR ESGOB (*yn curo ei ddwylo ac yn gwaeddi*): Tendiwch, y gwichwrs bach! (*Yn gwenu ac yn murmur*). Druan o Dici! Ble mae— (*Yn troi yng nghyfeiriad y coed*). Ie, lled debig—yr afon. (*Mae'n cofio swyn ymddiddan Dici*). Ffordd mae— (*Cwyd ei law fel pe'n trin y dryfer*). Swish! (*Gwena ac yna ochneidia'n eiddigus*). A, wel! (*Cwyd a cherdda yn ol a blaen yn anesmwyth, gan ymdrechu yn erbyn yr hudoliaeth ddinistriol*). Myfi? Na, na, na—NA! (*Erys i syllu drwy'r coed*). Ond—dim ond eu gwylio. (*Yn dynwared trin y dryfer eto*). Swish!

Clywir swn rhegen yr yd.

(*Yn arswydo*): Na, na,—dim am foment!

Cerdda yn ol a blaen eto.

Daw DICI a TWM yn ol, DICI a samwn mawr yn ei law. Gan TWM mae'r dryfer a het yr ESGOB a gafodd yn yr afon. Am foment, nid ydynt yn canfod YR ESGOB, canys yn yr ymdrech i ennill y fuddugoliaeth arno ei hun, mae ef wedi cerdded i'r cysgod. Mae DICI yn agos i'r tân cyn i'r ESGOB sylweddoli eu bod wedi dychwelyd.

YR ESGOB (*yn llawen*): A!—fy het!

DICI (*yn frawychus*): O! (*Mae'n gollwng y samwn i lawr yn agos i'r tân*).

TWM (*yn taflu'r dryfer o'r neilltu ar unwaith*): Darro!

DICI (*gyda gollyngdod*): Dim ond Ei Fawredd Grasol sy 'ma, Twm.

YR ESGOB: Mae'n flin gennyf aflonyddu arnoch chwi eto, ond syrthiais i'r afon. (*Yn canfod y samwn*). Beth yw hwn, Dici? Pysgodyn arall?

DICI (*yn gwenu ac yn berffaith esmwyth*): Wel, chi'n gweld, syr, 'rym ni wedi cael cynnig— (*Yn frawychus*). Twm?

TWM: Wel?

DICI: Mae Jenkins y Cipar draw fanna.

TWM: Jenkins?

YR ESGOB (*yn llidiog*): Y creadur yna yma eto?

DICI: A mae rhywun wrth y glwyd acw. Powel y Polis yw e'.

TWM: Mae rhywun tu cefn i'ni hefyd, Dici—mae' nhw wedi caud o'n cwmpas ni.

DICI: Gaf fi guddio'r samwn?

TWM (*yn ei atal*): Na, paid. Falle nag yn' nhw ddim wedi ei weld e' eto.

DICI: Beth wnawn ni?

TWM: Wn i ddim.

DICI: Mae' nhw'n dod tuag yma. Ia—dyma Jenkins.

YR ESGOB: 'R ydwyf yn cashau y dyn yna.

TWM: Diawch, Dici. Mae 'mhocedi i'n llawn o frithyllod hefyd.

YR ESGOB: T-t-t!

TWM: Ia, a mae llythyr Price gen i yn rhywle.

DICI: Mae' nhw'n caud arnom ni.

TWM: Dyma jail i fi, a'r wyrwys i titha, Dici.

DICI: Y Wyrwys? O, na, na, na! (*Wrth yr Esgob*). Allwch chi ddim ein helpu ni?

YR ESGOB: Myfi?

DICI: O syr, meddyliwch am dana' i y tu fewn i'r hen wal fawr 'na.

YR ESGOB (*yn dod i benderfyniad*): Un foment. Y pysgodyn yma fydd y dystiolaeth yn eich erbyn?

DICI: Ia.

YR ESGOB (*yn mynd at y boc yn agos i'r samwn*): Os bu i chwi droseddu â'ch dwylaw, pechais innau yn fy nghalon; felly waeth i mi orffen yr hyn a ddechreuais.

TWM: Beth ych chi am wneud?

YR ESGOB: Dileu'r dystiolaeth. Yn awr ynte. Os eisteddaf i i lawr a chymryd fy nghrys nos—fel hyn. (*Yn gwneud felly*).

DICI: Wel?

YR ESGOB: A'i ddal o flaen y tân i sychu—fel hyn.

DICI: Wel?

YR ESGOB: A'i ollwng dros y pysgodyn—fel hyn.

TWM: Ac wedyn?

YR ESGOB: Ei lapio am y pysgodyn—fel hyn.

TWM (*yn orfoleddus*): Dici!

YR ESGOB: A doddi'r cyfan yn fy mag—fel hyn. (*Mae'n cloi'r samwn a'i grys nos yn ei fag*).

DICI: Mae fe'n saff yn 'i fag e—wel tawn i byth o'r fan!

YR ESGOB: Ni faidd yr un cipar chwilio bag esgob.

TWM (*yn sibwrdd*): Dyma Jenkins. (*Yn hygryw*). Gwnawn, syr, fe ddown ni i'ch hebrwng chi i dy Mr. Lewis Pugh, gyda phleser.

Daw JENKINS *i mewn o'r aswy*.

YR ESGOB: Dyma chwi eto, mi welaf.

JENKINS: Beth oeddet ti'n wneud yn yr afon, gynne fach, Twm Tincer?

TWM (*yn gyfyng arno am foment*): Yn yr afon?

JENKINS: Ia—a gole gen ti. Beth oeddet ti'n wneud?

TWM (*yn dangos het yr Esgob*): 'Nol het y gwr bonheddig yma o'r dwr.

JENKINS: Het? (*Wrth yr Esgob*). Gollsoch chi 'ch het?

YR ESGOB: Collais fy het, mae hynny'n wir.

JENKINS: Paid ti a meddwl, Twm Tincer, y gelli di 'nhwylo i â hen stori am het. (*Wrth yr Esgob*). A 'rych chi'n ffrind i'r par yma wedi 'r cwbl. Ia, ffeirad nêt ych chi, siwr o fod.

Yn codi ei law i'w enau i chwibanu.

YR ESGOB: Os chwibanwch chwi, bydd yn edifar gennyh.

JENKINS: Yn edifar? Fydda' i 'n wir? A phwy ych chi, 's gwn i?

DICI (*yn fawreddog*): Ei Fawredd Grasol, Esgob Canolbarth Cymru.

JENKINS (*yn synnu*): Esgob?

YR ESGOB: Yn hollol felly. Os ydych yn ameu hynny, gadewch imi weld os oes gennyf rywbeth yn fy llogell. (*Yn tynnu dyrnaid o lythyrau o'i boced*). Edrychwch ar y rhai hyn. Maent wedi eu cyfeirio i mi.

JENKINS (*yn darllen*): "Y Gwir Barchedig Arglwydd Esgob Canolbarth Cymru."

DICI (*o'r neilltu*): Mawredd, Twm—Arglwydd!

JENKINS (*yn gorfod cydnabod hyn*): Ac yr ych chi 'n esgob, syr?

YR ESGOB (*yn cymryd y llythyrau yn ol*): 'R ydwyf yn adnabod eich meist. Gyda llaw gwahoddiad oddiwrtho i ginio yfory ydyw un o'r llythyrau hyn.

DICI: Beth? Ha, ha, ha! Twm, yn y Castle Hotel. Yn ol a glywa' i mae' nhw'n prynu samwn mawr erbyn y wledd. (*Wrth Twm o'r neilltu ac yn edrych ar y bag*). Twm, ha, ha, ha! Y samwn!

YR ESGOB: Mae'n ddiau gennyf, Dici, y carech chwi ennill swllt yn onest. A wnewch chwi gymryd gofal y bag yma i mi?

DICI: Gofalu? (*Yn cydio yn y bag yn orfoledus*): O gwna', fe ofala' i am y bag!

TWM (*yn codi'r llusernau*): Bydd ein pethau ni'n ddigon saff, Dici, nes i ni ddod 'nol. A nawr, f' Arglwydd, fe fydd yr asyn yn y cart mewn wincad; ac yna, f' Arglwydd, fe rown ni lifft i chi dros y bryn i dŷ Mr. Lewis Pugh, f' Arglwydd.

YR ESGOB: Diolch i chwi, Twm. (*Yn oeraidd*). Nos da 'r cipar.

JENKINS (*yn anfoddog, yn methu gwneud dim er ei fod yn parhau'n ddrwgdybus*). Noswaith dda.

DICI (*gyda malais*): Noswaith dda, Mistar Jenkins.

TWM: Noswaith dda, Jenkins. A chymrwch air o gyngor yn garedig gen i; 'rych chi'n un o'r rheiny sy'n codi'n rhy gynnar.

Mae'n symud i'r dde.

YR ESGOB (*yn dilyn Twm*): Ydych, gyfaill, yn rhy gynnar, ydych, yn wir—yn rhy gynnar.

Clywir rhegen yr yd wrthi yn ddygn iawn.

YR ESGOB (*yn aros ac yn ysgwyd ei law i'w chyfeiriad*): A thithau'n rhy ddiweddar, aderyn glân—yn rhy ddiweddar!

A TWM, YR ESGOB a DICI *allan ar y dde.*

LLEN.



NODIAD GAN YR AWDUR.

Cyflwynir y gomedi fach hon sydd eisoes wedi ei chwarae droeon o dan deitl arall o'r llaw ysgrif. at wasanaeth Cwmnioedd Drama pentrefi Cymru. Er mwyn ei chwarae 'n effeithiol, rhaid wrth lwyfan a golygfa briodol. Digwydd yr amgylchiad yn yr awyr agored yn hwyr y nos. Felly mae'n rhaid i'r cyfarwyddwr wrthod yr olygfa hen gynefin sy'n darlunio cegin Gymreig yng ngoleuni tanbaid hanner dydd.

Gyda thipyn o ddyfais, gellir trefnu golygfa addas mewn unrhyw neuadd neu ystafell lle bynnag y bo. Os nad oes—ar gael "tree-sets" i'w gosod yng nghefn y llwyfan, gellir awgrymu coed yn ddigon effeithiol trwy ddefnyddio llenni tywyll wedi eu trefnu a'u sicrhau ar ffurf prennau yn ymledu yn ganghennau wrth esgyn i fyny. Gwneir y clawdd trwy daenu "baize" gwyrdd neu ryw ddefnydd arall dros feinciau isel. Mae'n hawdd gwneud y tân trwy lapio papur du a choch a melyn am ddau electric bulb; neu, os nad oes goleuni trydan i'w gael, am lamp neu lusern, ond gofaler rhag iddo gyffwrdd a'r flam.

Er cael y goleuni priodol, rhaid i oleu'r tân ddatguddio canol y llwyfan ac ymgolli yng ngoleu'r lleuad a'r tywyllwch yn y cefndir. Peth anodd ydyw cael effeithiau goleuadol anghyffredin ar lwyfannau bach sydd heb eu cyfaddasu at waith o'r fath; ond yn y chwarae hwn, trefner dwy lamp modur fel ag i dafu eu pelydrau o'r ochrau. Gellir cael goleuni tyner a chynnes drwy osod darn teneu o wydr o liw'r ambr dros y lampau.

I gael goleu'r lleuad gosoder nifer o lampau glas ar astell o bobtu i'r llwyfan. Pan mae'r lleuad yn cilio tu cefn i'r cymylau, ni ddylid diffodd y lampau yn sydyn. Nid yw Natur yn gweithio felly. Gwell fyddai symud y lampau yn ol yn raddol er mwyn pylu'r goleu cyn ei ddiffodd.

Gellir benthycu'r samwn am bris rhesymol gan—

Messrs C. H. FOX, Ltd.,

Theatrical Costumiers,

27, Wellington Street,

London, W.C.2.

Mae'n hawdd cael brithyllod neu bysgod tebig, ond yn niffyg gwell, gwna pysgod "celluloid" wedi eu paentio y tro.

Gwneir swm y gwahanol greaduriaid a glywir yn y chwarae gan gyfaill un o'r cwmni sydd yn berchen dawn dynwared.

J.O.F.

